



Gallwn ei Wneud!



Y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear



Y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear

Ym mis Hydref 2017, dyfarnwyd Gwobr Heddwch Nobel 2017 i'r Ymgyrch Ryngwladol i Ddileu Arfau Niwclear (ICAN), clymblaid fyd-eang o grwpiau ymgyrchu yn cynnwys CND Cymru. ICAN a esgorodd ar yr ymgyrch i greu'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear a'i chyd-drefnu, a llwyddo i gael y Cenhedloedd Unedig i'w fabwysiadu.

Yn y Cenhedloedd Unedig ym mis Gorffennaf 2017, pleidleisiodd 122 o wledydd y byd i fabwysiadu'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear, gydag un bleidlais yn erbyn ac un wedi'i hatal. Mae'r cytundeb yn llwyr wahardd defnyddio, meddu, datblygu a phrofi arfau niwclear, ac mae'n gwahardd darparu cymorth i unrhyw wlad sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r gweithredoedd hynny. Gallai gwledydd sy'n aelodau o'r CU arwyddo'r Cytundeb o'r 20 Medi 2017 ymlaen.

Daeth y Cytundeb i rym ar 22 Ionawr 2021 yn dilyn cadarnhau'r Cytundeb gan yr hanner canfed gwlad. Mae arwyddo'n weithred gymharol syml gan arweinydd gwlad, ond mae cadarnhau



ICAN

ICAN yn derbyn Gwobr Heddwch Nobel, Setsuko Thurlow (canol) a Beatrice Fihn (ar y dde).

fel arfer yn golygu deddfu trwy senedd genedlaethol y wlad ermwyn gwneud y gwaharddiad yn rhan o gyfraith gwlad. Rydym am i bob gwlad arwyddo a chadarnhau'r Cytundeb!

Am y rhestr ddiweddaraf o'r gwledydd sydd wedi arwyddo a/neu gadarnhau'r cytundeb, gweler

<https://www.cndcymru.org/cy/amdanom/cwan/gwledydd/>

Mae testun llawn y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear ar gael yma: <https://www.un.org/disarmament/wmd/nuclear/tpnw/>

1. Beth yw cynnwys y cytundeb?

Mae'r cytundeb yn gwahardd gwladwriaethau rhag datblygu, profi, cynhyrchu, gwneuthur, trosglwyddo, meddu, crynhoi, defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear, neu ganiatáu cadw neu leoli arfau niwclear gwlad arall ar eu tiriogaeth nhw. Mae'r cytundeb hefyd yn gwahardd gwladwriaethau rhag cynorthwyo, annog neu gymell unrhyw un i weithredu yn yr un o'r ffyrdd hyn.

2. A ydy'r cytundeb yn rhwymo'n gyfreithiol?

Ydy – a nac ydy. Pan ddaw i rym, mae'r cytundeb yn rhwymo'r gwledydd sydd wedi ei arwyddo a'i gadarnhau yn gyfreithiol ond, fel pob cytundeb rhyngwladol, nid yw'n rhwymo gwledydd sydd heb ei arwyddo a'i gadarnhau.

3. A all gwlad sy'n meddu arfau niwclear arwyddo'r cytundeb?

Gall, fe all ymuno â'r cytundeb, cyhyd ag y bo hi'n cytuno i ddileu statws weithredol ei harfau niwclear ar unwaith, a chyflwyno cynllun â grym y gyfraith, y gellir ei wirio, ar gyfer dinistrio'i harfau niwclear o fewn terfyn amser penodol.

4. A all gwlad sy'n caniatáu arfau niwclear ar ei thiriogaeth arwyddo'r cytundeb?

Gall gwladwriaeth sy'n caniatáu lleoli arfau niwclear gwlad arall ar ei thiriogaeth ymuno â'r cytundeb, cyhyd ag y bo'n cytuno i'w symud o'i thiriogaeth erbyn dyddiad penodol.

5. A all gwladwriaeth ymuno â'r cytundeb a pharhau mewn cynghrair filwrol â gwlad ag arfau niwclear?

Gall. Mae Prydain yn aelod o Sefydliad Cytundeb Gogledd yr Iwerydd (NATO), corff y mae ei aelodau'n cadw'r hawl i fabwysiadu polisïau cenedlaethol annibynnol ar arfau niwclear a rhai eraill (gweler y blwch). Does dim yn y cytundeb yn atal gwlad rhag bod mewn cynghrair filwrol â gwlad ag arfau niwclear, cyhyd ag y bo'i chyfranogiad yn y gynghrair honno heb gynnwys gweithredoedd gwaharddedig yn ymwneud ag arfau niwclear.

6. A ydy'r cytundeb yn sefydlu mesurau gwirio neu ddiogelu i sicrhau nad yw gwledydd yn datblygu arfau niwclear?

Ydy. Rhaid i wledydd sydd â mesurau diogelu o dan y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) ufuddhau i'r cytundebau hyn, heb beryglu eu gallu i arwyddo cytundebau newydd yn y dyfodol. Gofynnir i wledydd sydd heb fesurau diogelu ddod i gytundeb yn unol â gofynion y CAY o fewn 18 mis. Nid yw'r cytundeb yn tansellio unrhyw ymrwymadau a wnaed i fesurau diogelu o dan y CAY.

7. A all gwlad honni nad yw rhannau penodol o'r cytundeb yn berthnasol iddi?

Na all. Nid yw'r cytundeb yn caniatáu i wlad bennu amodau 'ymatal': hynny yw, ni all arwyddo'r cytundeb ac yna honni nad yw rhannau neilltuoel o'r cytundeb yn berthnasol iddi.

8 A all gwlad dynnu 'nôl o'r cytundeb?

Gall. Wrth weithredu ei sofraniaeth, gall gwlad dynnu allan o'r cytundeb. Rhaid iddi roi 12 mis o rybudd. Fodd bynnag, ni all dynnu allan os ydyw ar y pryd yn rhan o wrthdaro arfog.

Oni fydd y pwerau niwclear yn ei anwybyddu?

Er na ddisgwylir i'r un wladwriaeth sydd ag arfau niwclear (Tsieina, Ffrainc, India, Israel, Gogledd Corea, Pacistan, Rwsia, y Deyrnas Unedig, ac Unol Daleithau America) arwyddo'r Cytundeb yn y dyfodol agos, mae'n sicr o effeithio'n sylweddol ar eu hymddygiad yn y tymor hir.

Sut mae Cytundebau'n newid polisïau, hyd yn oed heb eu harwyddo?

Mae cytundebau'n newid ffyrdd gwlad o weithredu, hyd yn oed pan na fydd wedi eu harwyddo. Er enghraifft, er nad yw UDA wedi arwyddo'r Cytundeb ar Fomiau Clwstwr, ni chynhyrchir bomiau clwster yn yr UD mwyach; caeodd y cynhyrhydd olaf, Textron, ei linell gynhyrchu olaf am nad yw'r UD yn prynu bomiau clwstwr mwyach, ac ni allodd y cwmni ddod o hyd i brynwyr rhyngwladol (am fod cymaint o wledydd wedi arwyddo'r Cytundeb ar Fomiau Clwstwr).

Mae 22 o'r 29 gwlad sy'n aelodau o NATO (pawb ond Estonia, Groeg, Latfia,

Gwlad Pwyl, Romania, Twrci ac UDA) wedi cadarnhau'r Cytundeb ar Fomiau Clwstwr. Ni fydd y gwledydd sydd wedi cadarnhau'r cytundeb yn cymryd rhan mewn ymarferion NATO sy'n ymwneud â bomiau clwstwr, sy'n golygu, i bob diben, nad yw NATO'n bwriadu defnyddio bomiau clwstwr bellach mewn unrhyw sefylla a allai godi.

Mae pob aelod o NATO (ac eithrio UDA) wedi cadarnhau Cytundeb Ottawa sy'n gwahardd ffrwydrion tir gwrth-bersonél. Felly, ni fydd y gwledydd hyn yn cymryd rhan mewn ymarferion NATO lle defnyddir ffrwydrion tir, sy'n golygu, i bob diben, nad yw NATO mwyach yn bwriadu defnyddio ffrwydrion tir mewn ymarferion milwrol.

O ganlyniad, er bod gan UDA hawl gyfreithiol i ddefnyddio bomiau clwstwr a ffrwydrion tir gwrth-bersonél, gan nad yw wedi arwyddo neu gadarnhau'r naill gytundeb na'r llall, mae eu cynghreiriaid yn NATO wedi cyfyngu ar ei gallu i ddefnyddio arfau hyn. Byddai'r un math o gyfyngiadau mewn grym yn achos arfau niwclear pe bai rhai o aelodau NATO yn arwyddo'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear.



Cynrychiolwyr CND Cymru i gynhadledd Ican ym Mharis (Linda Rogers a Thomas Pitt)

Pam y bydd yn llwyddo?

- Mae'r Cytundeb hwn yn dadgyfreithloni arfau niwclear. Wrth i fwyfwy o wledydd arwyddo, bydd yn arwydd clir nad yw'r mwyafrif yn y byd bellach yn derbyn bod arfau niwclear yn gyfreithlon, gan greu norm rhyngwladol newydd.
- Fel yn achos cytundebau gwahardd arfau blaenorol, mae newid normau rhyngwladol yn arwain at newidiadau pendant mewn polisiau ac ymddygiad, hyd yn oed pan fo gwledydd wedi gwrthod arwyddo'r cytundeb. Digwyddodd hyn gyda Chytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC) 1966: nid yw'r Unol Daleithau wedi cymeradwyo'r CGPC hyd yma, ac nid yw wedi dod i rym. Fodd bynnag, ni chynhaliodd yr UD mo'r un prawf arfau niwclear ers i'r cytundeb gael ei greu. Yn sgil y cytundebau i wahardd ffrwydron tir a ffrwydron clwstwr, newidiodd gwledydd nad oedd wedi arwyddo a chadarnhau'r cytundebau eu polisiau parthed yr arfau hyn hefyd (gweler y blwch).
- Mae'r Cytundeb newydd yn cwblhau cyfres o waharddiadau ar arfau dinistr torfol. Cychwynnodd y broses hon yn y 1970au,



Yr Athro Ken Booth, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth, a Beatrice Fihn o Sweden, Cyfarwyddyd Gweithredol ICAN

pan gafodd arfau cemegol eu gwneud yn anghyfreithlon, a pharhau hyd at y 1990au, gyda gwahardd arfau biolegol.

- Diben arfau niwclear yw lladd miliynau o sifiliaid yn ddiwahân – tramgwydd dybryd yn erbyn y Gyfraith Ddyngarol Ryngwladol. Ni fyddai braidd neb yn dadlau bod lladd sifiliaid ar raddfa dorfol yn dderbyniol, ond nid oes ffordd o ddefnyddio arfau niwclear heb wneud hynny. Mae'r cytundeb yn cryfhau ymhellach yr adran o'r Gyfraith Ddyngarol Rhyngwladol sy'n gwrthwynebu arfau niwclear.
- Bydd gwledydd yn aml yn ceisio arfau niwclear er mwyn y bri o gael eu gweld fel rhan o glwb pwysig. Trwy wneud arfau niwclear yn destun dirmyg yn hytrach nag edmygedd, gellir atal eu hymlediad.

Nid yw'r cytundeb yn ddatrysiad hudol y bydd yn cael gwared ag arfau niwclear, ond mae e'n un arfau (ymhlith llawer) y gallwn a dylwn ddefnyddio er mwyn symud ymlaen tuag at fyd heb arfau niwclear.

Dadfuddsoddi o arfau niwclear

Mae Cronfa Bensiwn Fyd-eang Llywodraeth Norwy (gwerth dros \$1000 biliwn) a Chronfa Bensiwn yr Iseldiroedd ABP (y bumed fwyaf yn y byd) wedi rhoi'r gorau

Y 9 Gwledydd sydd ag arfau niwclear*:

Rwsia 6,255

Unol Daleithiau America 5,550

Tsieina 350

Ffrainc 290

Y Deyrnas Unedig 260

Pacistan 165

India 156

Israel 90

Gogledd Corea 40-50

**Niferoedd ergydion niwclear yn hydref 2020*

i fuddsoddi mewn arfau niwclear, gan gynnwys dadfuddsoddi o British Aerospace oherwydd ei gyfranogiad yn system Trident. Mae'r Almaen wedi ehangu ei pholisi buddsoddi i eithrio cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu arfau niwclear ac mae Banc KBC Gwlad Belg hefyd wedi ymrwmo i eithrio pob cynhyrchydd arfau niwclear wrth fuddsoddi.

Mae'r cronfeydd hyn ymhlith 101 o sefydliadau ariannol sydd eisoes wedi penderfynu tynnu eu holl wasanaethau cyllido ac ariannol allan o gynhyrchu arfau niwclear. Mae'n werth nodi hefyd bod gwledydd lle lleolir llawer o'r sefydliadau ariannol hyn yn rai nad ydynt eto wedi llofnodi'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear – enghraifft o gyllid rhyngwladol yn gweld i ba gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu gyda mater neilltuol, ac yn gweithredu cyn eu llywodraethau.

Mae tystiolaeth bod cwmnïau'n teimlo'r math yma o bwysau. Er enghraifft, er nad arwyddodd yr Unol Daleithau'r Cytundeb ar Arfau Clwstwr ac nad yw felly wedi ei

rhwymo ganddo, mae cwmni Lockheed Martin o'r UD wedi cyhoeddi ei fod am roi'r gorau i gynhyrchu rocedi, taflegrau neu systemau lansio eraill ar gyfer arfau clwstwr, gan ddweud y bydd yn gwrthod archebion tebyg yn y dyfodol. Dywedodd Lockheed Martin ei fod yn gobeithio y byddai hynny'n golygu y gellid ei gynnwys mewn portffolios buddsoddi unwaith eto. Dengys hyn bod pwysau gan sefydliadau cyllidol wedi hybu penderfyniad Lockheed Martin i ddwyn ei ymwneud â chynhyrchu arfau clwstwr i ben.

Beth allwn ni ei wneud?

Lledaenu'r neges

Polisi llywodraeth y DU yw anwybyddu'r cytundeb hwn, ac ni chafodd nemor ddim sylw yn y cyfryngau. Ein cyfrifoldeb ni yw hysbysu pobl am y cytundeb, a'r cyfle y mae'n ei greu i ni symud ymlaen tuag at ddileu arfau niwclear ledled y byd.

Er enghraifft, beth am drefnu i ddangos y ffilm "The Beginning of the End of Nuclear Weapons"? Mae'r ffilm awr o hyd yn adrodd hanes arfau niwclear a sut y crëwyd y Cytundeb. Mae gan CND Cymru gopiau o'r ffilm ar gael ar go' bach.

Addewid Seneddwy'r ICAN

Gall unrhyw Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad ymuno â'r 1,300 a mwy o wleidyddion etholedig sydd wedi arwyddo Addewid Seneddwy'r ICAN i arddangos eu cefnogaeth i'r cytundeb:

"Yr ydym ni, y seneddwy'r sydd wedi arwyddo isod, yn croesawu mabwysiadu'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear gan y CU ar y 7 Gorffennaf 2017 yn gynnes, fel cam pwysig tuag at sicrhau byd heb arfau niwclear.



**Gwariodd y DU £13,917
bob munud ar arfau
niwclear yn 2019**



CND Cymru yn cefnogi gwaharddiad byd-eang, y Morlan, Aberystwyth, Chwefror 2019

Rydym yn rhannu'r pryder dwys a fynegir yn y rhagymadrodd am y canlyniadau trychinebus i'r ddynolryw pe câi arfau niwclear byth eu defnyddio, ac rydym yn ymwybodol o'r angen, o ganlyniad, am ddileu'r arfau annynol a ffaidd hyn. Fel seneddwyr, rydym yn addo gweithio i gael ein gwledydd i lofnodi a chadarnhau'r cytundeb tirnod hwn, gan ein bod yn ystyried bod dileu arfau niwclear yn fudd cyhoeddus byd-eang o'r radd flaenaf ac yn gam hanfodol tuag at hyrwyddo diogelwch a llesiant holl bobloedd y byd."

Ydy eich cynrychiolwyr etholedig wedi arwyddo'r addewid hwn? Mae rhestr o wleidyddion Cymru sydd wedi arwyddo ar gael yma: <https://www.cndcymru.org/cy/amdanom/cwan/addewid/>

Os nad ydynt wedi arwyddo, da chi, sgrifennwch atynt neu ymwelwch ag un o'u cymhorthfeydd i ofyn iddynt arwyddo'r addewid hwn. Os ydynt wedi arwyddo, gallech ddiolch iddynt a gofyn beth y gallant ei wneud i annog llywodraeth y DU i arwyddo'r Cytundeb.

Mae rhestr o'r holl wleidyddion sydd wedi arwyddo Addewid Seneddwyr ICAN ar gael yma: <http://pledge.icanw.org/>

Apêl Dinasoedd ICAN

Gall unrhyw gyngor dinas neu sir etholedig basio'r penderfyniad hwn i ddangos cefnogaeth i'r cytundeb:

"Testun pryder dwys i'n dinas/tref yw'r bygythiad difrifol y mae arfau niwclear yn ei beri i gymunedau ledled y byd. Credwn yn gryf fod gan ein trigolion yr hawl i fyw mewn byd sy'n rhydd o'r bygythiad hwn. Byddai i unrhyw ddefnydd o arfau niwclear, boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol, effeithiau trychinebus, pell-gyrhaeddol a hir-hoedlog ar bobl a'r amgylchedd. Felly, rydym yn croesawu'n gynnes y ffaith i'r Cenhedloedd Unedig fabwysiadu'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear yn 2017, a galwn ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymuno ag ef yn ddi-oed."

Ydy eich cyngor wedi cefnogi'r apêl hwn? Mae rhestr o gyngorau Cymreig sydd wedi cefnogi'r apêl ar gael yma: <https://www.cndcymru.org/cy/amdanom/cwan/dinasoedd/> Os nad ydynt wedi cefnogi'r apêl, beth am ysgrifennu at eich cyngorydd i ofyn iddynt gefnogi'r apêl hon ?

Mae rhestr o'r holl ddinasoedd a siroedd sydd wedi arwyddo Apêl Dinasoedd ICAN ar gael yma: https://cities.icanw.org/list_of_cities

Bancio Heb Fomiau

Mae adroddiad Don't Bank on the Bomb, Beyond the Bomb, yn proffilio 101 o fanciau, cronfeydd pensiwn, cwmnïau yswiriant a sefydliadau ariannol eraill sydd â pholisi o wrthwynebu buddsoddi mewn cynhyrchwyr arfau niwclear.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yma: <https://www.dontbankonthebomb.com/>

Mae CND yr Alban wedi gwneud cryn dipyn o waith ymchwil ac ymgyrchu ar ddadffuddsoddi o arfau niwclear; mae eu hadroddiad diweddaraf ar gael yma: <https://www.dontbankonthebomb.com/stop-funding-the-end-of-the-world-a-guide-to-nuclear-weapons-divestment-in-scotland/>

Addewid Arweinwyr Ffydd

Gall unrhyw un sydd mewn rôl arweinyddol o fewn eu cymuned ffydd lofnodi'r Addewid hwn: *"Fel arweinydd ffydd, rwy'n croesawu gweld Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear y Cenhedloedd Unedig yn dod i rym ar yr 22ain o fis Ionawr, 2021. Ystyriaf y cam hwn yn un pwysig ar y daith tuag at weld byd sy'n rhydd o arfau niwclear. Rwy'n rhannu'r pryder dwfn a fynegir yn rhagymadrodd y Cytundeb ynghylch canlyniadau defnyddio unrhyw arfau niwclear. Byddai hyn yn gwbl drychinebus i ddynoliaeth. O'r herwydd rwyf o'r farn y dylid cael gwared ar yr arfau creulon ac annynol hyn. Rwy'n addo i ddadlau'r achos moesol dros y Cytundeb hwn ac yn galw ar lywodraeth y DU i i'w gadarnhau a'i lofnodi."*

Ydy eich arweinwydd ffydd wedi arwyddo'r addewid hwn? Mae rhestr o arweinyddion ffydd Cymreig sydd wedi arwyddo ar gael yma:

<https://www.cndcymru.org/cy/amdanom/cwan/ffydd/>

Gyda'n gilydd, gallwn ei wneud !

Bydd angen pobl o bob rhan o Gymru, yn ymchwilio ac yn ymgyrchu gyda'i gilydd, i fynd â'r maen i'r wal yn yr holl feysydd hyn. Gall CND Cymru helpu trwy roi pobl mewn cysylltiad ag eraill sy'n ymgyrchu ar y materion hyn, a thrwy gydlynu'r ymgyrchoedd hyn. Gwirfoddolwyr ydyn ni i gyd, ond trwy weithio gyda'n gilydd gallwn ni gyflawni cymaint! Os ydych am gymryd rhan, yna cysylltwch â ni, da chi!

"Bydd diweddglo i stori arfau niwclear, a mater i ni yw beth fydd y diweddglo hwnnw. Ai diwedd arfau niwclear fydd hi, neu ai dyna fydd ein diwedd ni? "

Beatrice Fihn, wrth dderbyn Gwobr Heddwch Nobel 2017

Papur Cefndir CND Cymru: 8 Y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear

Ysgrifennwyd a golygwyd gan Jan Jones a Brian Jones

Cyfieithwyd gan Siân Edwards

Argraffwyd gan Redkite Print

Cyhoeddwyd gan CND Cymru

Mawrth 2022

Am gopïau pellach o'r Papur Cefndir hwn, ac i danysgrifio i gylchgrawn'Heddwch':

t: 01239 851 188

f: CND Cymru

e: heddwch@cndcymru.org

www.cndcymru.org

CND Cymru yw Ymgyrch Cymru dros

Ddiarfogi Niwclear

Cefnogwch CND Cymru a'n gwaith dros

ddiarfogi niwclear a heddwch a chyfiawnder rhyngwladol

Ymunwch â ni, da chi!